# SYNIADAU

## Cyfarfod Cyngor ar 03/04/2017

# SYNIAD 1:

FfRhA? Dim Diolch

## Y FFEITHIAU:

1. Nod y Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu (FfRhA) yw bod yn fecanwaith ar gyfer asesu ansawdd addysgu mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU. Mae'n deillio o addewid a wnaed gan y Blaid Geidwadol yn ystod Etholiad Cyffredinol 2015, ac roedd yn rhan o'u Papur Gwyrdd, dan y teitl "Gwireddu ein Potensial".
2. Gall sefydliadau yn y DU optio i mewn i'r FfRhA er mwyn cael eu hasesu ar gyfres o fetrigau (sgôr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF), data ar ddargadwedd, data cyflogaeth graddedigion) a chyflwyniad 15 tudalen wedi'i ysgrifennu gan y sefydliad, nad oes rhaid iddo gynnwys cyfraniad gan fyfyrwyr nac undebau myfyrwyr, ar ddisgresiwn y sefydliadau.
3. Caiff y FfRhA ei asesu gan grŵp o academyddion, myfyrwyr ac aseswyr arbenigol ac aelodau'r panel.
4. Caiff sefydliadau eu graddio'n Efydd, Arian neu Aur, a gall y lefel y caiff sefydliadau eu graddio arnynt benderfynu a gaiff y sefydliad gynyddu ffioedd dysgu'n uwch na £9,000 (yn Lloegr y unig ar hyn o bryd, yn unol â lefelau chwyddiant).
5. Mae'r FfRhA ar hyn o bryd yn gweithredu ar gam 2 (allan o isafswm o 3 cham arfaethedig), ac mae 299 o brifysgolion, colegau a darparwyr amgen wedi optio i mewn i'r cynllun. Mae FfRhA 2 yn darparu graddfa ar draws y sefydliad, ac mae'n seiliedig ar ddata israddedigion yn unig.
6. Caiff addysg cyfrwng Cymraeg ei hasesu yn y FfRhA ar isafswm o 5 credyd astudio.
7. Roedd Prifysgol Aberystwyth yn un o'r ychydig iawn o sefydliadau yng Nghymru i beidio mynd i mewn i FfRhA 2, ac roedd Swyddogion UMAber yn rhan o lunio'r penderfyniad hwn.

## BARN Y BOBL:

1. Cred Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) a llawer o undebau myfyrwyr nad yw'r metrigau a ddefnyddir yn y FfRhA yn fesurau cywir o ansawdd addysgu, ac nad oedd rhai ohonynt wedi'u cynllunio i fesur ansawdd addysgu.
2. Mae 76% o fyfyrwyr yn gwrthwynebu'r FfRhA ac nid yw 87% o fyfyrwyr addysg uwch yn ymwybodol o'r cysylltiad rhwng y FfRhA a chynnydd mewn ffioedd dysgu (*Save The Student*, 2016).
3. Mae ffioedd dysgu eisoes yn £9,000, yn ychwanegol i'r ffaith bod costau byw a chynhaliaeth ar gynnydd a bod newidiadau yn y system ar gyfer cymorth ariannol. Gallai cynnydd pellach mewn ffioedd dysgu ddarbwyllo rhai darpar fyfyrwyr rhag gwneud cais am le mewn prifysgol, gan adael eraill mewn mwy o ddyled yn sgil benthyciadau uwch.
4. Mae Tŷ'r Arglwyddi wedi cynnig gwelliannau i'r FfRhA, sy'n cynnwys torri'r cysylltiad rhwng y FfRhA a ffioedd dysgu, ond rhaid i hyn gael ei dderbyn gan Dŷ'r Cyffredin cyn y daw i rym. Nid oes sicrwydd y caiff y gwelliant ei dderbyn.
5. Mae addysg wedi'i datganoli yng Nghymru, a dylai Llywodraeth Cymru fod yn gallu penderfynu a ddylai'r FfRhA fel y saif fod yn berthnasol yng Nghymru, a ddylai Cymru fod â rhywbeth cyfatebol i'r FfRhA gyda metrigau wedi'u haddasu, ac a ddylai sefydliadau yng Nghymru gael cynyddu ffioedd dysgu.
6. Nid yw 5 credyd yn fesur cywir o ansawdd addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a dylid codi'r trothwy i o leiaf 40 credyd.
7. Cred UMAber na fydd deilliannau mynd i mewn i'r FfRhA o fudd i fyfyrwyr, oherwydd y posibilrwydd o gynnydd mewn ffioedd dysgu, mesur ansawdd dysgu'n anghywir, a'r posibilrwydd o symud at ymagwedd fasnachol at brofiad myfyrwyr, sy'n seiliedig ar fetrigau .
8. Mae'n dal i fod yn bosib i Brifysgol Aberystwyth ymuno â'r FfRhA yn nes ymlaen, a'r Brifysgol sydd â'r gair olaf o ran y penderfyniad i gyfranogi.

9. Mae'n bwysig os yw Prifysgol Aberystwyth yn dewis cymryd rhan yn y FfRhA, bod Swyddogion UMAber yn rhan o'r broses, er budd myfyrwyr Aberystwyth.

## Y DATRYSIAD:

1. Bydd UMAber yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r FfRhA ac yn galw am fesurau manylach ar gyfer asesu ansawdd addysgu.
2. Buasai UMAber o bosib yn gefnogol i FfRhA yn benodol ar gyfer Cymru, neu gynllun amgen pe bai un ar gael, wedi'i gydlynu gan Lywodraeth Cymru.
3. Bydd UMAber yn gwrthwynebu cysylltu'r FfRhA â chynnydd mewn ffioedd dysgu, a byddwn yn lobïo ar lefel y brifysgol i wrthwynebu unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn lleol, ac yn lobïo Llywodraeth Cymru (gan gefnogi unrhyw weithredu gan UCM Cymru) i barhau i wrthod unrhyw gynnydd mewn ffioedd dysgu ar sail graddfeydd y FfRhA.
4. Cred UMAber y dylai'r isafswm credydau ar gyfer asesu addysg cyfrwng Cymraeg godi o 5 i 40, a byddwn yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i lobïo dros hyn.
5. Gall Prifysgol Aberystwyth benderfynu ymuno â'r FfRhA ar unrhyw adeg. Dylai UMAber fod yn bartner gweithredol mewn unrhyw gyflwyniad ar gyfer y FfRhA gan Brifysgol Aberystwyth os ydynt yn dewis gwneud hynny, er mwyn sicrhau y caiff barn myfyrwyr ar ansawdd addysgu ei chynnwys.

Cynigydd: Lauren Marks

# SYNIAD 2:

Disgleiria, Diamond

## Y FFEITHIAU:

- Mae Adolygiad Diamond yn adolygiad i Gyllido ac Ariannu Myfyrwyr yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Ian Diamond.
- Adroddodd Adolygiad Diamond yn ôl i Lywodraeth Cymru ym Medi 2016, gan wneud argymhellion ar gyfer newid mewn cyllido addysg a chynhaliaeth myfyrwyr yng Nghymru.
- Ymatebodd Llywodraeth Cymru i argymhellion Adolygiad Diamond, oedd yn awgrymu pecyn cynhaliaeth arloesol, fyddai'n mynd i'r afael â chostau bod yn fyfyriwr lle mae'r pwysedd ar ei fwyaf dwys - cynhaliaeth, costau byw a rhoi cymorth i'r myfyrwyr hynny sydd fwyaf ei angen.
- Mae Adolygiad Diamond  hefyd yn gosod allan system gyllido flaengar ar gyfer addysg ran-amser ac ôl-raddedig, yn ogystal â mandadu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i gyhoeddi costau llawn mynd i'r brifysgol er mwyn lleihau effaith costau cudd ar gyrsiau.
- Mae UCM Cymru wedi ymateb i argymhellion Adolygiad Diamond ar ran myfyrwyr yng Nghymru, gan gynnwys mewnbwn gan UMAber ac undebau myfyrwyr ledled Cymru.

## BARN Y BOBL:

- Bydd y pecyn cyllido arfaethedig yn ehangu mynediad i addysg uwch a chynyddu'r cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr yng Nghymru.
- Mae system gyllido gynhwysol yn bwysig i fyfyrwyr, er mwyn sicrhau'r mynediad mor gyfartal â phosib i addysg uwch, a lleihau'r baich ariannol ar fyfyrwyr, gan gynnwys effaith dyled ar iechyd meddwl myfyrwyr.
- Nid yw'r pecyn cyllido a gynigir yn gwbl berffaith, ac mae llais myfyrwyr yn bwysig mewn awgrymu gwelliannau i'r cynigion.
- Dylai myfyrwyr gael llais ar faterion pwysig sy'n perthyn i'w profiad mewn addysg uwch, yn arbennig o ran cyllido ac effaith newidiadau yn y system gyllido.

## Y DATRYSIAD:

- Bydd UMAber yn gefnogol i argymhellion Adolygiad Diamond, gan eu bod yn gosod allan system gynhaliaeth sydd yn cynnig cymorth ariannol cynyddol i fwy o fyfyrwyr wrth iddynt ymuno â'r system addysg uwch yng Nghymru.
- Bydd UMAber yn gweithio gydag UCM Cymru i lobïo ar welliannau i'r argymhellion, yn arbennig i gynnwys cymorth ychwanegol ar gyfer grwpiau penodol o fyfyrwyr (e.e. myfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu, y rheiny sy'n gadael gofal, myfyrwyr ag anableddau) ac ehangu ymhellach mynediad i'r cymorth sydd ar gael.
- Bydd UMAber yn mynd ati  ymgysylltu'n weithredol ar faterion sy'n ymwneud ag Adolygiad Diamond er mwyn sicrhau bod llais myfyrwyr Aberystwyth yn cael ei glywed a'i ystyried.

Cynigydd: Lauren Marks

# SYNIAD 3:

Cynnig diweddaru Dogfen Bolisi yr Undeb

## Y FFEITHIAU:

1. Mae canran fawr o fyfyrwyr Aberystwyth siarad ac yn byw trwy Gyfrwng y Gymraeg
2. Mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru gyda'r union yr un hawliau ar Saesneg.
3. Mae'r brifysgol yn gweithio ar bolisi dwyieithrwydd effeithiol.
4. Ers 2013, mae'r undeb wedi bod â dogfen bolisi dwyieithog sy'n sicrhau tegwch i'r Gymraeg
5. Cyhoeddwyd safonau iaith i Brifysgolion gan y llywodraeth sy'n datgan tegwch i'r Gymraeg o fewn sawl maes Prifysgolion. Ni fydd rhaid i undebau ddilyn y safonau iaith hyn.

## BARN Y BOBL:

1. Mi fydd adnewyddu Dogfen Bolisi'r undeb yn dangos bod yr undeb yn parhau i fod yn gynhwysol a hygyrch i'r myfyrwyr
2. Dylai dwyieithrwydd fod yn gwbl normal ac nid rhywbeth sy'n rhaid gofyn amdano.
3. Ni ddylai unrhyw fyfyriwr fod dan anfantais oherwydd pa iaith rydym yn derbyn gohebiaeth ynddi.

## Y DATRYSIAD:

1. Cytuno i basio'r polisi dwyieithrwydd yr undeb yn ei fformat diweddaraf

Cynigydd: Rhun Dafydd

# SYNIAD 4:

Un Aelod Un Bleidlais

## Y FFEITHIAU:

Ar hyn o bryd yng nghyfarfodydd Undeb y Myfyrwyr, dim ond y Llywydd, yr Is-lywydd a Thrysorydd cymdeithasau a chlybiau chwaraeon gaiff bleidleisio. Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) yw'r unig eithriad i'r rheol hon.

## BARN Y BOBL:

Nid oes gan fyfyrwyr cyffredin sydd â diddordeb yng ngwleidyddiaeth Undeb y Myfyrwyr lais yn y ffordd y caiff eu hundeb ei redeg. O gofio bod nifer fawr o fyfyrwyr nad ydynt yn perthyn i gymdeithas na chlwb chwaraeon, sut maen nhw i gael eu cynrychioli? Os yw'n iawn i fyfyrwyr oll gael pleidleisio yn y CCB, dylai fod yn iawn caniatáu i fyfyrwyr bleidleisio ym mhob cyfarfod o Gyngor yr Undeb.

## Y DATRYSIAD:

Caniatáu gweithredu system un aelod un bleidlais gael ei gweithredu cynted â phosib.

Cynigydd: Ieuan Joy